# S W Y DD W A G

## CYDLYNYDD PROSIECT LLAWRYDD

# ar gyfer Ceangal / Cwlwm IV

ymgynulliad ar gyfer y sectorau theatr Cymraeg, Gwyddeleg a Gaeleg yr Alban

Mae partneriaid cydweithredol Ceangal Cwlwm yn chwilio am gydlynydd prosiect i weithio ochr yn ochr â phwyllgor llywio ar ymgynulliad theatr rhyngwladol fydd yn digwydd ar 11 a 12 Tachwedd 2022.

Mae partneriaeth Ceangal Cwlwm yn cynnal digwyddiad deuddydd blynyddol, sef ymgynulliad o wneuthurwyr theatr, artistiaid, academyddion a chwmnïau sy'n gwneud gwaith yn y Gymraeg, yng Ngaeleg yr Alban ac mewn Gwyddeleg.

Bydd y sawl a benodir yn gweithio'n rhan-amser i'r pwyllgor o bartneriaid cydlynu, ar gontract llawrydd fydd yn cael ei gyhoeddi gan un o'r sefydliadau partner sef Theatre Gu Leòr, o fis Medi 2022 tan fis Mawrth 2023. Y ffi sy'n cael ei chynnig yw £5,000, ac amcangyfrif o'r ymrwymiad amser yw 30 diwrnod, i'w weithio ar amseroedd i'w cytuno sy'n gweddu i'r cydlynydd, y partneriaid cydweithredol a gofynion y prosiect.

Gan gydweithio â phartneriaid eraill yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban, dylai'r sawl a benodir allu dangos eu bod wedi rheoli prosiectau tebyg yn y gorffennol a bod ganddynt sgiliau trefnu, cyfathrebu a chydweithio rhagorol, ynghyd â'r gallu i reoli cyllidebau'n effeithiol.

Ieithoedd gwaith y rhwydwaith yw Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg a Saesneg, a dylai'r sawl a benodir fod yn rhugl yn o leiaf ddwy o'r rhain (Saesneg ac un arall).

**<u>Yr Ymgynulliad</u>**

Bydd hwn yn ddigwyddiad deuddydd cyffrous a deinamig yn cael ei gynnal yn Theatr Genedlaethol yr Alban yn Glasgow ar 11 a 12 Tachwedd 2022, gan dynnu ynghyd wneuthurwyr theatr, artistiaid, cynhyrchwyr, academyddion, cyllidwyr, a sefydliadau a chwmnïau theatr cenedlaethol o Gymru, Iwerddon a'r Alban. Bydd darnau byrion o waith cyfredol yn y sector hefyd yn cael eu cyflwyno.

I gael rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau blaenorol ac am rwydwaith Ceangal/Cwlwm yn ehangach, ewch i'n gwefan: https://www.ceangalcwlwm.com/

**<u>Y Swydd</u>**

- Cydlynu a threfnu'r ymgynulliad ar y cyd â'r pwyllgor llywio
- Trefnu a chydlynu siaradwyr, perfformwyr, hwyluswyr a mynychwyr yr ymgynulliad
- Archebu a chydlynu llety a theithio ar gyfer siaradwyr
- Trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer yr ymgynulliad
- Cydlynu cyfieithwyr ar gyfer y cyfieithu ar y pryd
- Rheoli cyllideb y digwyddiad

- Cydlynu cyhoeddusrwydd a marchnata ar gyfer y digwyddiad
- Creu a chyhoeddi cynnwys ar wefan Ceangal Cwlwm
- Paratoi papurau a deunyddiau cyn yr ymgynulliad
- Casglu data monitro a gwerthuso i'w gyflwyno i’r cyllidwyr

**<u>Sgiliau / Nodweddion / Profiad</u>**

- Rhuglder ysgrifenedig a llafar yn Saesneg ac o leiaf un arall o ieithoedd y rhwydwaith
- Profiad o weithio ym maes y celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg, Gaeleg yr Alban neu Wyddeleg
- Profiad o reoli digwyddiadau
- Profiad o reoli cyllidebau
- Yn gyfarwydd â rhaglenni fel Mailchimp, Squarespaces, a’r cyfryngau cymdeithasol
- Rhaid i'r ymgeisydd fod yn rhydd i ddod i'r ymgynulliad yn Glasgow ym mis Tachwedd 2022

**<u>Ffi’r Cydlynydd Prosiect</u>**

£5,000 dros y cyfnod o fis Medi 2022 tan fis Mawrth 2023 (heb gynnwys costau teithio a chynhaliaeth).
Disgwylir y bydd mwyafrif y gwaith yn cael ei wneud yn 2022.

**Cyflwynwch y canlynol fel cais am y swydd hon erbyn 17:00, 23/09/22.**

- CV gyfredol gan gynnwys enghreifftiau o waith yn y maes hwn
- Llythyr eglurhaol yn mynegi diddordeb yn y swydd a’ch addasrwydd ar gyfer y swydd
- Yr holl fanylion cyswllt.

Dylid cyflwyno ceisiadau i **<u>info@theatreguleor.com</u>**.
Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau am y swydd i'r cyfeiriad e-bost hwn hefyd.